

---

## IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

DYDD MERCHER 14 MEDI 2026

---

**TEITL:** Diweddariad Sefyllfa'r Cynllun Datblygu Strategol

**AWDUR:** Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP).

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

### 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Diweddaru'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'r SDP.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn o'r sefyllfa ynglŷn â'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn a nodwyd yn yr adroddiad i'r pwyllgor hwn ym mis Gorffennaf eleni ([Dolen i'r adroddiad](#)) gan roi diweddariad cryno o'r cynnydd ers y cyfarfod hwnnw.

- 4.2. Bydd yr Aelodau yn cofio o'r adroddiad hwnnw mai'r dasg gyntaf bwysig, oedd eisoes wedi dechrau ar adeg cyfarfod y pwyllgor, oedd y cam cyntaf wrth ddatblygu sylfaen dystiolaeth i'r SDP. Roedd hyn yn benodol yn cynnwys proses dau gam o archwilio'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol sydd eisoes ar gael mewn cronfeydd data ac yn seiliau tystiolaeth Cynlluniau Datblygu Lleol.

- 4.3. O ran y mater hwn, cyfeiriodd yr adroddiad blaenorol at hyn fel a ganlyn:

- a. **Paratoi'r sail dystiolaeth** – Mae gwaith eisoes ar y gweill i baratoi sail dystiolaeth ar gyfer yr SDP. I ddechrau, mae hyn yn cynnwys archwiliad o'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli yn y dystiolaeth a gasglwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi ac adolygu eu CDLI, ochr yn ochr â data a rhagolygon tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth perthnasol eraill. Mae cyfarfod sgopio eisoes wedi'i gynnal gyda swyddogion o bob Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae cyfarfodydd unigol hefyd yn cael eu trefnu i adolygu a thrafod tystiolaeth pob awdurdod yn eu tro. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o ba mor gyfredol yw'r wybodaeth yn ogystal ag a oes bylchau yn y dystiolaeth sydd ei hangen. Bydd argymhellion gan gynnwys sgôp, methodolegau a rhaglen arfaethedig ar gyfer gwaith sail dystiolaeth ychwanegol yn caniatáu i'r CBC ganolbwyntio adnoddau yn unol â hynny, er enghraifft ar baratoi unrhyw dystiolaeth newydd sydd ei hangen i lenwi'r bylchau hyn ar sail ranbarthol, neu weithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol i gydlynu diweddariadau o seiliau tystiolaeth leol. Mae'n

*debygol y bydd hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r ymarfer casglu data cyfatebol, gyda'r CBC yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol, a fydd yn llywio datblygiad yr SDP a'i asesiadau effaith.*

- 4.4 Er bod y gwaith hwn wedi datblygu'n dda, nid yw'r argymhellion a'r adroddiad drafft ar gael i'w hadrodd i gyfarfod y pwyllgor hwn eto, ond byddant yn rhan o agenda'r cyfarfod nesaf. Er mwyn dangos ar ba sail y cynhaliwyd yr archwiliad tystiolaeth, mae atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn nodi sgôp yr Archwiliad Tystiolaeth ac mae'n seiliedig ar y 'materion craidd' a amlinellir yn llawlyfr y CDLI. Yna, defnyddiwyd y fframwaith hwn fel meincnod i asesu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i benderfynu pa mor ddiweddar yw hyn, ac a oes bylchau yn bodoli y bydd angen mynd i'r afael â nhw trwy gomisiynu gwaith casglu tystiolaeth benodol.
- 4.5 Roedd y cyfarfodydd sgopio a gynhaliwyd gyda phob tîm polisi ACLI hefyd yn amhrisiadwy o ran nodi lleoliad a hygyrchedd i sylfeini tystiolaeth CDLI priodol sydd i gyd yn cael eu hasesu, yn ogystal â'r sefyllfa a gyrrhaeddwy gydag adolygiadau CDLI.
- 4.6 Er nad yw'r adroddiad archwilio llawn wedi'i ddarparu eto gan ymgynghorwyr y CBC, mae atodiad 2 yn darparu crynodeb lefel uchel o rai o'r canfyddiadau allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad o CDLI o ran patrymau twf, blaenoriaethau seilwaith, ac mae'n nodi lle mae'r sail dystiolaeth yn parhau i fod yn gadarn neu ble mae'n debygol y bydd angen diweddariad. Gwahoddir aelodau i adolygu'r crynodeb lefel uchel hwn a rhoi eu meddyliau a'u hadborth yn y cyfarfod, y gellir eu bwydo wedyn i gwblhau'r argymhellion a'r adroddiad archwilio.
- 4.7 Mae'r camau nesaf yn cynnwys cwblhau'r adroddiad Archwilio Tystiolaeth ac argymhellion ar gyfer gwaith pellach. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae gwaith yn cael ei gomisiynu ar yr adroddiad sgopio Asesiad Effaith Integredig a'r angen i ddadansoddi a chrynhai cynnwys y dystiolaeth a nodwyd yn yr archwiliad, ac i ysgrifennu hyn mewn Adroddiad Prif Faterion i lywio camau nesaf datblygiad y SDP.

## **5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 5.1. Bydd y costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd lle gwnaed darpariaeth i gefnogi'r gwaith hwn, gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau pob cyfle am ragor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

## **6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 6.1. Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

### **ATODIADAU:**

- Atodiad 1:** Pynciau Sgopio Archwilio  
**Atodiad 2:** Crynodeb Archwilio Lefel Uchel
-

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

### i. Swyddog Monitro:

"Mae gan y CBC ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ac mae'r fframwaith statudol wedi'i ystyried gan y Pwyllgor hwn. Mae'r argymhellion ar gyfer nodi yn unig ac nid ydynt yn cymeradwyo unrhyw sefyllfa bolisi sylweddol, strategaeth a ffafrir, dyrannu safle neu ddogfen ymgynghori.

Wrth i'r SDP fynd rhagddo, bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol nodi ymhellach y cam statudol perthnasol, gofynion ymgynghori, dyletswyddau asesu, ac ati. Gall gweithdai anffurfiol i Aelodau gynorthwyo datblygiad yr SDP, ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer ymgysylltu a thrafodaeth yn unig, gydag unrhyw allbynnau materol yn cael eu bwydo i'r broses ffurfiol o adrodd a gwneud penderfyniadau."

### ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisiwyd ac mae'r costau a amcangyfrifir o gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael eu hystyried yn barhaus. Bydd yn cael ei gynnwys yn ein gwaith fel rhan o'r adolygiadau cyllideb rheolaidd, y broses gyllideb flynyddol yn ogystal ag yn y cynllun ariannol tymor canolig."